Cynllun Cynefin

Cymorth Cynllunio Cymru



# O GYNLLUN I BROSIECTAU:

## Datblygu a Chyllido Prosiectau dan Arweiniad y Gymuned

Canllawiau Cymunedol
Cynllun Cynefin Kickstarter 6/6

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# O GYNLLUN I BROSIECTAU: Datblygu a Chyllido Prosiectau dan Arweiniad y Gymuned

Canllawiau Cymunedol Cynllun Cynefin Kickstarter 6/6

## Beth yw'r ddogfen hon?

Mae'r canllaw hwn yn edrych ar sut i ddatblygu syniad eich prosiect i fod yn brosiect y gellir ei ariannu, lle i ddod o hyd i gyllid a sut i wneud cais amdano.

Mae wedi'i fwriadu fel canllaw rhagarweiniol a dylid ei ategu gyda chyngor ac arweiniad cyllidwyr lleol a'r tîm cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Paratowyd y canllaw hwn gan Gymorth Cynllunio Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r prosiect 'Cynllun Cynefin Kickstarter' gydag arian gan Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU Cymru.

## Ar gyfer pwy y mae o?

Mae'r canllaw yma wedi'i gynllunio ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref a / neu grwpiau cymunedol yng Nghonwy sydd naill ai:

- Wedi cwblhau Cynllun Cynefin Kickstarter ac yn ystyried y camau nesaf, neu:
- Yn ystyried cynhyrchu rhyw fath o gynllun cymunedol ac maen nhw'n pendroni ble i ddechrau.

Mae'r canllaw yn rhan o gyfres sy'n archwilio cynllunio dan arweiniad y gymuned; Gellir lawrlwytho'r canllawiau hyn o **www.placeplans.org.uk/conwyguides**

**Diolchiadau**

Diolch yn fawr i Resources 4 Change ar gyfer Cefnogi Cynhyrchu'r Canllaw hwn – gweler https://r4c.org.uk/

# Cynnwys


**Cyn i chi ddechrau ........ 444**
Darparu adnoddau neu gyllid? ........ 444
Cwestiynau allweddol ........ 555
Rhai Termau Allweddol ........ 555

**1. Diffinio eich Prosiect........ 666**
Beth yw'r broblem? ........ 666
Archwilio'r Broblem ........ 666
Beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni? ........ 777
O Broblem i Ateb........ 888

**2. Cynllunio eich prosiect........ 999**
Pwy fydd yn cyflawni'r prosiect? ........ 999
Beth sydd angen ei wneud? ........9109
Faint fydd yn ei gostio? ........101010
Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r prosiect yn llwyddiant? ........101110
Sut fyddwch chi'n rheoli risgiau? ........111211

**3. Dod o hyd i arian a gwneud cais amdano ........ 131313**
Ffynonellau ariannu ........131313
Awgrymiadau am wneud cais am arian ........151715
Ar ôl i chi ymgeisio........161816
Darllen Pellach........171817

# Cyn i chi ddechrau




O'r diwedd, wedi'r holl gynllunio, mae'n bryd dechrau cyflawni!

Bydd y Cynllun Kickstarter wedi eich helpu i adnabod blaenoriaethau eich cymuned, ac os ydych chi wedi cymryd camau pellach ac wedi cynhyrchu cynllun llawn, bydd gennych chi'r wybodaeth / tystiolaeth eisoes i gyfiawnhau'r angen am y prosiect hwnnw.

Mae'r canllaw hwn yn ystyried y pethau y mae angen i chi feddwl amdanynt wrth ddiffinio a datblygu eich prosiect ac yna dod o hyd i arian ar gyfer y prosiect a gwneud cais amdano.

Mae gwneud cais am arian prosiect yn dasg ynddo'i hun; bydd angen casglu rhagor o wybodaeth mae'n debyg a bydd angen cwblhau 'cais' neu ffurflen gais. Cyn i chi ddechrau, meddyliwch am y canlynol.

## Darparu adnoddau neu gyllid?



Mae eich Gweithgor eisoes yn cynnwys un o'ch adnoddau pwysicaf - pobl sy'n gallu rhoi peth o'u **hamser** i helpu i gyflawni newid yn yr ardal. Nodir '**buddugoliaethau cyflym**' yn eich cynlluniau – casglu mwy o wybodaeth, cwrdd â chydweithwyr posibl a chyflwyno'r hyn y gallwch drwy weithgaredd gwirfoddol.

Nid fyd pob prosiect angen arian. Gellir cynhyrchu a rhannu rhestr gweithgareddau lleol, annog sefydliadau presennol i sefydlu yn eich ardal neu ddylunio llwybr gweithgaredd cymunedol i gyd heb fawr o arian uniongyrchol os oes unigolion o fewn y gymuned gydag ymrwymiad neu'r sgiliau cywir. Dylai harneisio gwirfoddolwyr i ddarparu cyfleoedd o'r fath fod yn un o rolau'r Gweithgor.

Os oes angen arian, gellir ei ddarparu mewn amrywiaeth o ffurfiau:

- Rhoddion, cymynroddion neu 'ariannu torfol' e.e.: www.spacehive.com lle mae unigolion neu sefydliadau'n rhoi arian i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect.
- Grantiau - naill ai 'grantiau cyfalaf' ar gyfer prynu neu ddatblygu tir, adeiladau neu gyfarpar neu 'grantiau refeniw' i ariannu digwyddiadau neu gyflogi staff.
- Nawdd corfforaethol gan fusnesau lleol / cenedlaethol.
- Ffioedd aelodaeth - lle mae aelodau'n talu ffioedd er mwyn helpu i gefnogi prosiect neu weithgaredd.
- Gwerthu nwyddau a gwasanaethau.


- Rhoddion ‘anariannol’ – mathau llai o gefnogaeth a ddarperir gan sefydliad arall (e.e. y Cyngor Tref) ar gyfer pethau fel argraffu, llogi ystafelloedd neu hyd yn oed amser staff.

Gyda'r holl fathau hyn o gyllid, dylech fod yn glir gyda'r cyllidwyr pam mae angen y cyllid arnoch chi a sut y byddwch yn ei ddefnyddio. Dechreuwch drwy feddwl am y cwestiynau isod.

## Cwestiynau allweddol

- Pam ydych chi'n ei wneud? Beth yw'r broblem rydych chi'n ceisio ei datrys?
- Oes gennych chi'r wybodaeth gywir i brofi bod y broblem yn bodoli?
- Ar gyfer pwy y mae o? Pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud?
- Sut fyddwch chi'n ei wneud, pryd fyddwch chi'n ei wneud a phwy fydd yn ei gyflawni?
- Faint fydd yn ei gostio?
- Sut fyddwch chi'n rheoli risgiau?
- Sut fyddwch chi'n gwybod bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus?

### Rhai termau allweddol




**Prosiect:** Set o weithgareddau neu wasanaethau gyda nod cyffredinol, wedi'i reoli gan yr un unigolyn / grŵp. Fel arfer, mae prosiect wedi'i gyfyngu o ran amser gyda diwedd clir.

**Gweithgor:** Grwpiau a ffurfir fel rhan o Brosiect Kickstarter i oruchwylio'r Cynllun Kickstarter a gallent gymryd cyfrifoldeb am y prosiect.

**Defnyddiwr / Buddiolwr**: Rhywun sy'n defnyddio gwasanaethau neu allbynnau'r prosiect.

**Cyfranogwyr**: Unrhyw berson, grŵp neu sefydliad sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect lle nad ydynt o reidrwydd yn ddefnyddwyr gwasanaeth.

**Ymatebwr:** Rhywun sy'n rhoi gwybodaeth i'r prosiect / gweithgaredd.

**Tystiolaeth / data:** Gwybodaeth sy'n cael ei chasglu i resymoli'r angen am brosiect neu weithgaredd – mae'n dod yn ddata pan fydd yn gysylltiedig â phwrpas penodol.

**Cais**: At ddibenion y canllaw hwn, mae'r gair 'cais' wedi cael ei ddefnyddio i ddisgrifio cais am gyllid, ffurflen gais neu lythyr cais.

# 1. Diffinio eich Prosiect

Mae Cynlluniau Kickstarter wedi adnabod **blaenoriaethau cymunedol** ar gyfer pethau yr hoffent eu gweld yn gwella yn yr ardal.

Trafododd y Gweithgorau a ydynt yn 'berchnogion' ar yr heriau a adnabuwyd, neu a fydd angen eu harchwilio gyda'r rhai sy'n gyfrifol amdanynt (e.e. CBSC) – yn yr achosion hyn, gan weithio gyda'r rhai sy'n gyfrifol gyda'i gilydd i helpu i hwyluso atebion ddylai fod y flaenoriaeth.

Fodd bynnag, fe ddaw amser lle mai prosiect sy'n cael ei arwain gan y gymuned yw'r opsiwn gorau. Darperir ysbrydoliaeth ar gyfer prosiectau dan arweiniad y gymuned yng Nghanllaw 5, ond gan gymryd bod syniad prosiect yn ffurfio, dylai'r canlynol helpu i'w ddiffinio ymhellach.

## Beth yw'r broblem?

Er mwyn cyfiawnhau'r defnydd effeithiol o amser gwirfoddolwyr ac i fod yn sicr y gallwch argyhoeddi cyllidwyr bod problem i'w datrys, dylech allu mynegi'n glir ac yn gryno beth yw'r broblem *mewn gwirionedd*.

*Beth yw'r angen?*

Dechreuwch drwy adnabod y broblem, pa mor wael yw hi, unrhyw wasanaethau presennol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon a lle mae'r bylchau yn y gwasanaeth hwn. Bydd casglu rhagor o wybodaeth am hyn yn bwysig:

- Sut beth yw'r amgylchedd ffisegol ac economaidd lle bydd y prosiect yn digwydd?
- Pwy a lle mae'r gynulleidfa darged?
- Pa grwpiau cymunedol / darparwyr gwasanaethau presennol sy'n bodoli, ble mae'r bylchau ac a allech chi weithio mewn partneriaeth â'r grwpiau hyn?
- Oes modd torri'r broblem i lawr i faterion llai?

### Archwilio'r Broblem

**Blaenoriaeth Gymunedol:**
*"Mae angen mwy o weithgareddau arnom ar gyfer pobl ifanc."*



**Tystiolaeth a gasglwyd:**

- *Data'r Cyfrifiad - mae 22% o'n pobl ifanc yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau. Mae 27% o bobl rhwng 18 a 24 oed yn ddi-waith.*
- *Mae'r broblem hon hyd yn oed yn waeth yn rhan dde-orllewinol y dref.*
- *Arolwg Pobl Ifanc - diffyg hyder ymhlith 35% o bobl ifanc rhwng 16–18 oed.*
- *Arolwg Gweithgareddau Cymunedol – o 20 o weithgareddau wythnosol yn ein tref, 11 yn darparu ar gyfer pobl ifanc. Dim ffocws yn benodol ar adeiladu hyder.*
- *Astudiaethau achos – cododd 3 prosiect diweddar hyder pobl ifanc gan ddefnyddio grwpiau drama a theatr.*

- Pa wybodaeth fydd yn dangos y broblem yn glir?

*Pwy yw eich cynulleidfa darged?*


Mae'n bwysig bod yn glir ynglŷn â phwy sy'n cael eu heffeithio gan y broblem - gellid eu hadnabod drwy leoliad neu le (byddwch yn benodol) neu yn ôl oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ethnigrwydd, yn ôl statws iechyd neu anabledd. Gallant hefyd fod yn grwpiau economaidd-gymdeithasol megis rhieni sengl, di-waith, gweithwyr llaw, myfyrwyr ac ati.

*Allwch chi ei brofi?*

Dylech allu archwilio a dangos pwysigrwydd y broblem drwy gasglu **tystiolaeth.** Bydd cyllidwyr eisiau gwybod bod arian yn cael ei wario'n ddoeth ac yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag angen sydd wedi ei brofi. Gellir defnyddio tystiolaeth eilaidd fel data'r Cyfrifiad, ond byddwch yn fwy perswadiol os ydych wedi casglu gwybodaeth gynradd hefyd (arolygon, astudiaethau ac ati). Gweler Canllaw 3 am fwy o wybodaeth am gasglu tystiolaeth.

## Beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni?

Dylech hefyd allu disgrifio'n glir ac yn gryno ar gyfer beth fydd yr arian rydych chi'n ymgeisio amdano yn cael ei ddefnyddio, sut y bydd yn helpu i ddatrys y broblem a sut y bydd o fudd i'ch cynulleidfa darged:




*Ffynhonnell: Practical Monitoring and Evaluation, t.19 (2008)*

Y newid neu'r gwahaniaeth rydych chi eisiau ei wneud ddylai eich **nod** neu **genhadaeth gyffredinol** fod. Gall datganiadau cenhadaeth hefyd gynnwys datganiadau am sut fyddwch chi'n cyflawni'r prosiect – **gwerthoedd** yw'r rhain. Bydd angen **nodau penodol** ar y genhadaeth. Dylai'r rhain ddisgrifio'r gynulleidfa darged

a'r manteision neu'r newidiadau rydych chi'n ceisio eu cyflawni gyda'r prosiect. Mae nodau fel arfer yn defnyddio geiriau sy'n cyfleu **newid** - e.e. 'cynyddu', 'datblygu' neu 'gwella'.

Mae **amcanion** yn adnabod beth fyddwch chi'n ei wneud neu pa wasanaethau y byddwch chi'n eu darparu er mwyn cyrraedd eich nod. Mae amcanion yn cynnwys geiriau fel 'cynhyrchu' neu 'sefydlu'.

**Allbynnau** yw'r gweithgareddau a'r gwaith a gyflawnir fel rhan o'r prosiect gan eu bod yn ymwneud ag amcanion prosiectau.

Mae'r newidiadau a'r buddion sy'n digwydd o ganlyniad i weithgareddau prosiect yn cael eu hadnabod fel **deilliannau**. Mae'r rhain yn ymwneud yn uniongyrchol â nodau prosiect.

**Effaith** gyffredinol y prosiect yw'r newidiadau ehangach a thymor hwy y mae'r prosiect yn eu cyflawni mewn perthynas â'i nod neu ei genhadaeth gyffredinol.

## O Broblem i Ateb

***Cenhadaeth:*** *Gwella bywydau pobl ifanc yn ein tref drwy integreiddio drama i addysg a gweithgareddau cymunedol.*

***Gwerthoedd:*** *Grymuso, Cynnwys Defnyddwyr wrth Gynllunio Gwasanaethau, Cydweithredol*

***Nod 1:*** *Galluogi i bobl ifanc fynegi eu hunain drwy ddrama.*

***Amcan 1:*** *Perfformio dramâu mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol ar y cyd â sefydliadau gwirfoddol eraill.*

| Nod | Deilliannau | Amcanion | Allbynnau |
|---|---|---|---|
| Newid agweddau pobl ifanc ynglŷn â materion cymdeithasol trwy ddrama | Mwy o hyder ymhlith pobl ifanc | Perfformio dramâu mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol ar y cyd â mudiadau gwirfoddol eraill | Cyfarfodydd ag asiantaethau eraill |
| | Mwy o ymdeimlad o ymrwymiad a chyfrifoldeb | | Ymarferion |
| | Datblygu sgiliau gweithio mewn tîm | | Taflenni cyhoeddusrwydd |
| | Mwy o sgiliau mewn dawns a drama | | Perfformiadau |

*Ffynhonnell: Practical Monitoring and Evaluation, t.19-20 (2008)*

# 2. Cynllunio eich prosiect

## Pwy fydd yn cyflawni'r prosiect?

- **Gweithio mewn partneriaeth.** Ehangu cyrhaeddiad a dyfnhau effaith eich prosiect drwy weithio gyda phartneriaid a allai helpu i oruchwylio, rheoli, neu gyflawni'r prosiect. Gall Cytundebau Partneriaeth sefydlu'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan bob partner.

- **Grŵp Llywio.** Yn atebol am sicrhau y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus; gall fod y Gweithgor (neu ran ohono) neu'r Cyngor Tref. Yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol, awdurdodi defnydd o arian, cefnogi'r Rheolwr Prosiect a sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid.

- **Rheolwr Prosiect.** Unigolyn sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith o ddydd i ddydd ar y prosiect gan staff, contractwyr a gwirfoddolwyr. Mae'n monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn gweithredoedd. Yn amodol ar raddfa'r prosiect a natur y cyllid, gall contractwyr ymgymryd â'r rôl rheoli prosiect neu gellid penodi aelod newydd o staff i'r rôl.

- **Staff y Prosiect.** Yn amodol ar raddfa'r prosiect a natur unrhyw gyllid gellid penodi staff newydd ar gontract. Dylid penodi staff ag arbenigedd a sgiliau priodol i gyflawni'r tasgau sy'n ofynnol ar gyfer y prosiect.

- **Contractwyr.** Gall ymgynghorwyr ymgymryd ag ymchwil benodol neu reoli prosiectau neu grefftwyr i ymgymryd â gwaith corfforol. Dylai'r grŵp llywio benodi contractwyr sydd wedi cymhwyso'n briodol (ac wedi'u hyswirio) a chadarnhau telerau'r contract. Dylid gofyn am gyngor pellach i sicrhau bod contractau'n addas i'w pwrpas.

- **Gwirfoddolwyr.** Yn aml bydd gan bobl leol frwdfrydedd i dorchi llewys a helpu i gyflawni prosiectau, ond cofiwch y dylai gwirfoddoli fod yn berthynas ddwyffordd - mae gan wirfoddolwyr hawl i gael eu hyfforddi, yn ddiogel ac â llwybrau clir i'w cefnogi. Gweler https://wcva.cymru/volunteering/

## Beth sydd angen ei wneud?

Bydd hyn yn dibynnu'n fawr ar natur a graddfa'r prosiect. Dylech ddechrau drwy fod yn glir am **gwmpas** y prosiect – beth fydd y prosiect yn ei wneud ac na fydd yn ei wneud. Dylech fod yn glir ynghylch nodau, amcanion ac allbynnau'r prosiect; dylai hyn fynd â chi'r rhan fwyaf o'r ffordd tuag at **amserlen y prosiect**.

Mae'n bwysig bod yn realistig o ran disgwyliadau'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn cyfnod amser penodol – dylech ganolbwyntio ar y tasgau blaenoriaethu sy'n cymryd mwy o amser neu ei gwneud yn ofynnol i dasgau eraill gael eu cwblhau yn gyntaf a chreu amseroedd arweiniol rhesymol, gan gynnwys amseroedd i recriwtio unrhyw

staff / a neu gontractwyr.  Gallai Siart Gantt ei gwneud hi'n haws cynllunio trefn ac amseriad tasgau:

| | Wythnos | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tasg** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** |
| Ymgynghoriad Cynllun Kickstarter: | | | | | | | | | | | | |
| Cytuno ar weithgareddau a lleoliadau llyfrau | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi hysbysebion a ffurflenni archebu | | | | | | | | | | | | |
| Hysbysebu digwyddiadau a gweithgareddau | | | | | | | | | | | | |
| Lansio a digwyddiadau galw heibio | | | | | | | | | | | | |
| Cau'r ymgynghoriad a dadansoddi'r canlyniadau | | | | | | | | | | | | |
| Cyflawni'r cynllun terfynol | | | | | | | | | | | | |

## Faint fydd yn ei gostio?

Mae'n debygol y bydd cyllidwyr angen **cyllideb** i ddarlunio'n glir ar gyfer beth fydd yr arian yn cael ei ddefnyddio. Dylid gwneud hyn yng nghyfnod cynllunio'r prosiect a dylid cael dyfyniadau cymharol ar gyfer unrhyw waith neu wasanaethau sydd eu hangen.

Gwnewch yn siŵr bod y gyllideb yn cael ei chyflwyno'n glir gan ddefnyddio tablau gydag esboniadau a dyfyniadau manwl os oes angen. Dylid dadansoddi'r holl gostau, gan gynnwys unrhyw ofynion cyfalaf (e.e. ar gyfer prynu) a chyllid refeniw (e.e. ar gyfer cyflogi staff) fel ei bod hi'n amlwg sut gyrhaeddoch chi'r niferoedd; mae'n debygol y bydd y costau hyn yn cael eu craffu'n drylwyr. Os ydych yn gwneud cais o gronfa benodol, gwnewch yn siŵr eich bod yn adolygu nodiadau canllawiau'r gronfa ar gyfer yr hyn y gellir ei ariannu ac na ellir ei ariannu.

## Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r prosiect yn llwyddiant?

Dylech feddwl sut y bydd llwyddiant prosiect yn cael ei fesur wrth gynllunio'r prosiect. Gellir defnyddio **Dangosyddion Perfformiad** i fesur y gwaith a wnaed ar y prosiect, y newidiadau sy'n digwydd o ganlyniad a sut mae'r prosiect wedi bodloni ei nodau a'i genhadaeth. Gellir defnyddio dangosyddion i osod **targedau** ar gyfer y prosiect.

Mae **dangosyddion allbwn** yn mesur pethau fel maint yr eitemau neu wasanaethau a gyflawnir, faint a pha fath o bobl oedd yn eu defnyddio, boddhad defnyddwyr a chostau:

| Allbwn | Dangosyddion | Targedau |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd ag asiantaethau | Nifer / math o asiantaeth a gysylltwyd â nhw neu y cafwyd cyfarfod â nhw. | 5 cyfarfod gyda gwahanol asiantaethau yn ystod y flwyddyn. |
| | Nifer o weithgareddau a gyflawnir. | 11 o weithgareddau wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn. |
| Taflenni cyhoeddusrwydd | Nifer y taflenni wedi'u hargraffu a'u dosbarthu. | Dosbarthwyd 500 o daflenni yn ystod y chwarter cyntaf. |
| | Nifer y cyfranogwyr newydd a gychwynnodd. | 50 o gyfranogwyr newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf. |

Mae **dangosyddion deilliannau** yn mesur sut fyddai llwyddiant yn edrych mewn perthynas â phob nod:

| Deilliant | Dangosyddion | Targedau |
|---|---|---|
| Mwy o hyder ymhlith pobl ifanc | Nifer o bobl ifanc sy'n cyflwyno 3 perfformiad | 80% o bobl ifanc yn mynychu'r holl weithdai / ymarferion yn cyflwyno perfformiadau |
| | Nifer y bobl ifanc sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus. | Cynnydd o 70% yn lefelau hyder a adroddwyd o arolygon ar ddechrau yn erbyn diwedd y prosiect. |
| | Cadw amser | 95% o bobl ifanc yn troi fyny i weithgareddau ar amser |

*Yn deillio o Practical Monitoring and Evaluation, t.22 (2008)*

## Sut fyddwch chi'n rheoli risgiau?

Un o'r agweddau allweddol ar gynllunio yw ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect a'r hyn y gallech ei wneud i leihau effeithiau neu **liniaru'r** risgiau hyn ymlaen llaw.

Rhai cwestiynau allweddol i feddwl amdanynt yw 'beth allai fynd o'i le?', 'beth allwn ni ei wneud i leihau'r risg?' a 'beth yw ein cynllun wrth gefn?'.

Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw paratoi **cofrestr risg** sy'n ystyried y math o risg, y tebygolrwydd y bydd yn digwydd, yr effaith os yw'n digwydd a'r hyn y gallwch ei

wneud i liniaru'r risg hon. Mae hefyd yn bwysig canfod pwy yw 'perchennog' y risg o fewn y gofrestr hon:

| Risg | Tebygolrwydd | Ardrawiad | Perchennog | Mesurau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Contractwr yn methu cyflawni ar amser | Canolig | Uchel | PM | Sicrhau bod terfynau amser clir yn cael eu darparu o fewn contractau |
| Prosiect yn methu cyrraedd targedau | Isel | Uchel | SG | Sicrhau adroddiadau PM ar gynnydd mewn cyfarfodydd chwarterol |
| Amserlen y prosiect heb ei ddiffinio na'i ddeall yn glir | Isel | Canolig | PM | Cyflawni sesiwn briffio ar amserlen y prosiect i bob parti. |
| Codwm a disgyn | Canolig | Uchel | SG / PM | Caffael Yswiriant Indemniad Cyhoeddus digonol. Cynnal Asesiadau Risg Lleoliad. |

# 3. Dod o hyd arian a gwneud cais amdano

Rydych chi nawr yn barod i ddod o hyd i arian ar gyfer eich prosiect a gwneud cais amdano. Mae'n debygol y bydd angen i rywun yn y Gweithgor arwain ar baratoi'r cais terfynol, ond yn y pen draw, dylai gwneud cais am gyllid fod yn ymdrech grŵp. Efallai y bydd eich Cyngor Tref / Cymuned yn gallu cefnogi'r cais neu hyd yn oed weithredu fel y prif ymgeisydd, felly peidiwch ag anghofio trafod unrhyw brosiect gyda nhw yn gyntaf.

## Ffynonellau ariannu

Mae'n bwysig bod natur eich prosiect yn cyd-fynd â meini prawf y cyllidwr, felly darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd yn ofalus.

Ffynonellau Lleol / Rhanbarthol

| Ffynhonnell Ariannu Posibl | Nodiadau | Swm |
|---|---|---|
| Cynllun cymunedau y dreth gwarediadau tirlenwi WCVA: https://wcva.cymru/funding/landfill-disposals-tax-communities-scheme/ | Amgylcheddol / Cynaliadwyedd / Lleihau Gwastraff. Ardaloedd cymwys yng Ngogledd y Sir ar hyd yr Arfordir. | £5,000 - £49,999 |
| Cyngor Tref Conwy: Grant Cronfa Datblygu Cymunedol https://www.conwytowncouncil.gov.uk/en/grants/community-development-fund | Mae grwpiau gwirfoddol neu gymunedol wedi'u lleoli yng Nghonwy, Cyffordd Llandudno neu Ddeganwy yn gymwys. | £10,000 |
| Cartrefi Conwy: Cist Gymunedol: https://cartreficonwy.org/tenants/my-neighbourhood/funding/ | Yn cefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol ffurfiol i gyflawni prosiectau cymunedol ar raddfa fach. | £1,000 |
| Elusen Richard James, Ymddiriedolaeth Crafnant (Llanrwst TC) https://www.cyngorllanrwst.cymru/en/trusts-we-manage/grant-application-forms | Mae ymgeiswyr cymwys yn gyfyngedig i drigolion presennol Llanrwst a'i sefydliadau elusennol neu gymunedol sydd wedi'u lleoli yn y gymuned honno neu'n bennaf yn y gymuned. | £250 - £1000 |
| Cronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog: https://www.cvsc.org.uk/en/?view=article&id=583:clocaenog-home&catid=2 | Arian ar gyfer prosiectau sy'n cyflawni ar lesiant, a gwella economaidd, cadwraeth a digidol. Cymhwysedd yn amodol ar leoliad. | £200,000 |
| Sefydliad Steve Morgan https://stevemorganfoundation.org.uk/ | Cefnogi prosiectau sy'n helpu plant a theuluoedd, pobl ag anableddau, yr henoed, neu bobl dan anfantais gymdeithasol. | £100k+ |
| Cronfa Gymunedol Eryri https://snowdonia.gov.wales/cronfa-cymunedol-eryri-a-new-funding-opportunity/ | Ar gyfer Cyngor Cymuned neu Fenter Gymdeithasol yn neu ger Eryri. Cyllid cyfalaf sy'n cynnwys naill ai Datgarboneiddio, Twristiaeth ac ati. | £5,000 - £10,000 |
| Cronfa Gymunedol Tai Gogledd Cymru https://www.nwha.org.uk/get-involved/opportunities/community-fund/ | Darparu arian i gynorthwyo grwpiau gwirfoddol, cymunedol, hamdden neu drigolion sydd wedi'u lleoli yn siroedd Conwy. | £25 - £250 |
| Cronfa Grant Hwb Cynnes CVSC | Yn cefnogi creu hybiau cynnes yng Nghymru. | Anhysbys |

| | | |
|---|---|---|
| https://www.cvsc.org.uk/en/covid-19/community-support | | |
| Cronfa gymunedol Gwynt y Môr https://cvsc.org.uk/images/GYM/GYM_COVID-19_Response_Grant_Guidelines_e.pdf | Cronfa fferm wynt ar y môr. CVSC yw'r dosbarthwr. | £100-£5,000 |

Mae hefyd yn werth gwirio gyda changhennau lleol o archfarchnadoedd, siopau galedwedd ac ati gan fod ganddynt gronfeydd lleol yn aml neu byddant yn rhoi deunyddiau - TESCO, Coop, Morrisons, B&Q ac ati.

## Cronfeydd Cenedlaethol

| Ffynhonnell Ariannu Posibl | Nodiadau | Swm |
|---|---|---|
| Cronfa Cymunedau'r Loteri Genedlaethol: Arian i Bawb https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales | Ystod o brosiectau cymunedol bach | £10,000 |
| Cronfa Cymunedau'r Loteri Genedlaethol: Pobl a Lleoedd (Grantiau Canolig a Mawr) https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/people-and-places-large-grants | Ystod o brosiectau cymunedol - grantiau loteri llai hefyd ar gael | £10,001 - £500,000 |
| Cronfa Cymunedau'r Loteri Genedlaethol: Cefnogi Syniadau Gwych https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/supporting-great-ideas | Mae Syniadau Gwych yn dyfarnu grantiau i gefnogi syniadau prosiectau arloesol ac yn strategol bwysig sy'n annog newid cymdeithasol cadarnhaol yng Nghymru. | £10,001+ |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Grantiau'r Loteri Genedlaethol ar gyfer Treftadaeth https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales | I gymunedau sydd eisiau datblygu asedau treftadaeth er budd y gymuned. Cyfalaf a Refeniw | Hyd at £5,000,000 |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Llefydd Lleol ar gyfer Natur https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales | Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn gynllun grant cyfalaf gyda'r bwriad o alluogi i gymunedau yng Nghymru adfer a gwella natur. | £250,000 |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Llefydd Lleol ar gyfer Natur – Chwalu Rhwystrau https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales | Nod yw cynyddu'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau sydd wedi'u heithrio ac sydd dan anfantais gyda'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a chwalu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad at fyd natur. | £100,000 |
| Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: Grant Gwella Coetir (TWIG) https://www.heritagefund.org.uk/in-your-area/wales | Gyda'r bwriad o greu, adfer a gwella coetiroedd yng Nghymru, fel rhan o fenter Coedwig Genedlaethol Llywodraeth Cymru. | £250,000 |
| Cronfa Treftadaeth Bensaernïol https://ahfund.org.uk/grants/wales/ | Arian refeniw a chyfalaf drwy 3 chynllun grant i gefnogi cadwraeth a datblygu adeiladau hanesyddol – yn aml er budd y gymuned | £50,000 |
| CADW: Rhaglen Grant Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol https://cadw.gov.wales/historic-buildings-capital-grant-programme | Gall ariannu 50% o waith cymwys i helpu perchnogion a cheidwaid i ddiogelu adeiladau rhestredig sydd mewn perygl i'r dyfodol er budd y gymuned ehangach. | £250,000 |
| Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol: *https://gov.wales/community-facilities-programme* | Datblygu cyfleusterau cymunedol – arian cyfalaf | £250,000 |

| | | |
|---|---|---|
| Cronfa Perchnogaeth Gymunedol: https://www.gov.uk/government/collections/new-levelling-up-and-community-investments#the-community-ownership-fund | Cyfalaf: Disgwyl rownd ariannu newydd yn 2023 | £250,000 |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU https://www.gov.uk/government/collections/new-levelling-up-and-community-investments#the-community-ownership-fund | Tua £16m i'w rannu ymysg ALl Gogledd Cymru. Conwy fydd yn penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain, ond heb eu cyhoeddi eto. Mae disgwyl y manylion yn gynnar yn 2023. | I'W GADARNHAU |
| Chwaraeon Cymru: Cronfa Cymru Actif: https://www.sport.wales/grants-and-funding/beactivewalesfund/ | Grantiau ar gyfer prosiectau sy'n lleihau anghydraddoldeb; creu cynaliadwyedd tymor hir; cyflwyno ffyrdd newydd neu wahanol o weithredu | £300 - £50,000 |
| Sefydliad Moondance https://moondancefoundation.org.uk/ | Ar gyfer newidiadau trawsnewidiol mewn cymunedau yng Nghymru a thu hwnt | £25k - £50k? |
| Sefydliad Elusennol Trusthouse - Grant Bach (DU) https://www.trusthousecharitablefoundation.org.uk/our-grants/small-grants | I sefydliadau elusennol sydd ag incwm o lai na £250,000 ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar Gymorth Cymunedol. | £2,000 - £10,000 |
| Grantiau Cymunedol Garfield Weston: *https://garfieldweston.org/what-we-support/community/* | Prosiectau sy'n ymwneud â lles, ieuenctid, cymuned, yr amgylchedd, addysg, iechyd, y celfyddydau, treftadaeth a ffydd. | £1,000 - £1m+ |
| Ymddiriedolaeth Teulu Schroder https://schrodercharitytrust.org/ | Cryfhau gweithgareddau cymunedau. | £5,000 |
| Sefydliad Cymunedol Cymru https://communityfoundationwales.org.uk/grants/fund-for-wales/ | Grantiau i grwpiau cymunedol bach sy'n cael eu gyrru gan wirfoddolwyr a'u prosiectau'n anelu at wella ac adeiladu cymunedau cryfach. | £500 - £2,000 |
| Rhaglenni Grant Gwirfoddoli Cymru (WCVA) https://wcva.cymru/funding/vwg/ | Grantiau i gefnogi sefydliadau a phrosiectau dan arweiniad gwirfoddolwyr yng Nghymru. Hefyd Grantiau Strategol mwy ar gael ar gyfer prosiectau cyfyngedig. | £25,000 x 2 flynedd |
| Ymddiriedolaeth Gymunedol AVIVA https://www.aviva.co.uk/services/more-from-aviva/aviva-community-fund/ | Prosiectau sy'n adeiladu cymunedau mwy cysylltiedig, mwy gwydn ac yn rhoi'r gallu i bobl ddod yn fwy annibynnol yn ariannol. | £50,000 |
| Bernard Sunley Charitable Foundation - grantiau cymunedol http://www.bernardsunley.org/grants/what-we-fund | Grantiau tuag at adeiladu neu adnewyddu cytiau sgowtiaid, neuaddau pentref, canolfannau cymunedol, clybiau ieuenctid, ac ati. | £5,000 - £20,000+ |
| Cronfa Cefn Gwlad y Tywysog https://www.princescountrysidefund.org.uk/ | Cefnogaeth i rymuso cymunedau gwledig a theuluoedd ffermio. | £50,000 |
| Sefydliad Foyle http://www.foylefoundation.org.uk/ | Yn cefnogi elusennau lleol sy'n darparu gwasanaethau i'r gymuned ifanc, fregus, oedrannus, dan anfantais neu'r gymuned gyffredinol. | 32,000 - £10,000 |

## Awgrymiadau ar gyfer gwneud cais am arian

- **Caniatewch digon o amser** Caniatewch digon o amser i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen ac i lenwi'r ffurflenni i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio.
- **Gwnewch eich gwaith cartref.** Darllenwch nodiadau canllaw'r gronfa a sicrhewch bod eich prosiect yn cyd-fynd. Cymerwch olwg ar eu gwefan a'r prosiectau maen nhw wedi'u hariannu yn y gorffennol.

- **Dewiswch eich cronfa yn ofalus.** Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys. Er y gallai meini prawf ariannu helpu i lunio eich prosiect, ni ddylech gyfaddawdu eich syniad prosiect i ddiwallu anghenion y gronfa. Dewch o hyd i'r gronfa gyda'r ffit orau – os nad yw'n ffitio, symudwch ymlaen.
- **Gofynnwch am gyngor.** Mae gan lawer o gyllidwyr swyddogion allgymorth a fydd yn hapus i gynorthwyo; mae'n ddigon posib y bydd hyn yn talu ar ei ganfed ac yn arbed amser i'r ddwy ochr. Siaradwch â phartneriaid, sefydliadau a ariennir, CBS Conwy a CVSC i gael cyngor.
- **Dywedwch stori.** Allwch chi grynhoi eich prosiect mewn cwpl o frawddegau? Ydi o'n gyffrous? Beth yw'r bachyn? Argyhoeddwch eich partneriaid, eich rhanddeiliaid, eich noddwyr a'ch cyllidwyr y byddwch yn gwneud gwahaniaeth a sut. Ysgrifennwch stori rymus yn esbonio pam mai chi yw'r bobl orau ar gyfer y swydd.
- **Byddwch yn benodol, yn glir, ac yn fyr.** Peidiwch ag ysgrifennu gormod - nid yw terfyn geiriau yn darged o reidrwydd! Defnyddiwch bwyntiau bwled a chadwch at y pwynt. Dylech osgoi jargon / iaith gymhleth a meddyliwch am eich cynulleidfa - y siawns yw eu bod yn darllen cannoedd o geisiadau.
- **Gwirio.** Gwnewch yn siŵr eich bod chi neu rywun arall yn prawf-ddarllen eich cais i wneud yn siŵr bod y cyfan mewn trefn ac nad ydych wedi methu unrhyw beth. Cofiwch gynnwys unrhyw ddogfennau / tystiolaeth ychwanegol sydd eiu hangen pan fyddwch yn cyflwyno'r cais.

## Ar ôl i chi ymgeisio

<u>Cais aflwyddiannus</u>

Peidiwch â digalonni - mae'n broses gystadleuol iawn. Dysgwch o unrhyw adborth a gynigir, addaswch eich cais a cheisiwch eto yn y dyfodol neu adeiladu ar yr adborth a rhowch gynnig ar gronfa arall – dyfal donc!

<u>Cais llwyddiannus</u>

Cofiwch fonitro a chofnodi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni telerau'r cyllid – bydd hyn hefyd yn ddefnyddiol i werthuso a dysgu o'r prosiect ar gyfer prosiectau yn y dyfodol – gweler darllen pellach isod.

Pob lwc.

## Darllen Pellach

Mae'r esboniadau a'r achosion enghreifftiol a ddarperir yn y canllaw hwn wedi deillio o *Practical Monitoring and Evaluation: A Guide for Voluntary Organisations (2008)* gan y Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau. Er bod canllawiau manwl ar fonitro a gwerthuso y tu hwnt i gwmpas y canllaw hwn, argymhellir yn fawr y ddogfen hon fel darllen pellach ac mae ar gael o:
https://www.scribd.com/document/336080915/Practical-Monitoring-and-Evaluation-A-guide-for-voluntary-organisations#